TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# AIM Diploma mewn Sgiliau ar gyfer Gweithio yn y Diwydiannau Creadigol a Dylunio Lefel 2



**Yn gryno**

Mae'r cwrs hwn yn eich galluogi i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth ar gyfer adeiladu gyrfa mewn ystod o ddiwydiannau creadigol a dylunio.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Ydych yn greadigol

... Rydych eisiau gweithio mewn diwydiant dylunio creadigol

... Rydych eisiau ymdrin ag ystod eang o feysydd

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Byddwch yn ymdrin ag ystod o unedau ar draws disgyblaethau creadigol gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys:

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Celf a Dylunio
Crefft
Cerddoriaeth, Perfformio a Digwyddiadau
Y Cyfryngau a Ffotograffiaeth
Cyflogadwyedd

Byddwch yn datblygu technegau ac yn adeiladu ar sgiliau sy'n hanfodol i'r diwydiant hwn drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau megis cystadlaethau, cyflwyniadau, gweithdai ac arddangosiadau.

Yn y Diploma Lefel 2, byddwch yn astudio cyfuniad o unedau ochr yn ochr â modiwlau cyflogadwyedd i'ch paratoi ar gyfer Lefel 3 mewn llwybr galwedigaethol-berthnasol neu yrfa yn y diwydiant.

Gall unedau enghreifftiol gynnwys:-

Iaith Weledol
Gweithio gyda'r Cyfryngau Cymysg
Bywluniadu
Argraffu 3D
Cerameg
Dylunio Balwnau
Creu Modelau
Dylunio Dillad
Sgiliau DJ
Recordio gyda Desg Gymysgu
Sain Byw
Cynllunio a Hyrwyddo Digwyddiadau
Cerddoriaeth Ffilm
Cynhyrchu Ffilmiau
Mentergarwch mewn Crefft

Byddwch yn cael eich asesu drwy aseiniadau a thasgau, defnydd ymarferol, cynhyrchu cynnyrch a phortffolio o waith. Pan fyddwch yn ei gwblhau, byddwch yn cyflawni:

Dyfarniad Diploma Lefel 2 AIM mewn Sgiliau ar gyfer Gweithio yn y Diwydiannu Dylunio Creadigol

Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg (os nad oes gennych chi Radd C neu uwch ar lefel TGAU)

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I gofrestru ar y cwrs hwn, mae angen i chi fod ag o leiaf pedwar TGAU, Gradd D neu uwch, gan gynnwys mewn un ai Mathemateg/Rhifedd neu Gymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg, neu gymhwyster Diploma Lefel 1 priodol yn y maes galwedigaethol perthnasol sy'n cynnwys un ai TGAU Mathemateg/Rhifedd neu Gymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg Gradd D neu uwch.

Byddwch angen i chi fod yn frwdfrydig, gweithio'n galed, bod yn angerddol am weithio yn y diwydiant dylunio creadigol. Bydd disgwyl i chi ymarfer technegau o fewn ystafelloedd celf, siop grefftau, stiwdios cerddoriaeth ac ystafelloedd y cyfryngau'r coleg i helpu i adeiladu eich profiadau gwaith realistig. Mae presenoldeb a phrydlondeb ym mhob sesiwn yn un o brif ofynion y cwrs.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Gydag ymrwymiad a'r sgiliau priodol mae posib i chi fynd ymlaen i lwybr galwedigaethol Lefel 3 mewn cerddoriaeth, celf a dylunio, y cyfryngau neu ddylunio gemau.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Fel rhan o'r gofynion mynediad bydd disgwyl i chi fynychu sesiwn flasu.